CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 6 Ionawr 2014

Rhif Union: 01824706141

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 14 IONAWR 2014** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

## AGENDA

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd 17 Rhagfyr 2013 (copi'n amgaeedig).

**5 Y CYNNIG I GAU YSGOL LLANBEDR** (Tudalennau 13 - 298)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg (copi'n amgaeedig) ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig i gau Ysgol Llanbedr ar 31 Awst 2014 ac ar symud y disgyblion presennol i Ysgol Borthyn, Rhuthun yn amodol ar ddewis y rhieni. Mae'r adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig.

**6 FFRAMWAITH AR GYFER GWASANAETHAU INTEGREDIG AR GYFER POBL HŶN** (Tudalennau 299 - 336)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Oedolion a Phlant (copi'n amgaeedig) yn hysbysu'r aelodau o fwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth. Mae'r adroddiad hefyd yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r Datganiad o Fwriad drafft sydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru mewn ymateb.

**7 POLISI DYRANIADAU CYFFREDIN - UN LLWYBR MYNEDIAD AT DAI** (Tudalennau 337 - 392)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau (copi'n amgaeedig) sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygu Un Llwybr Mynediad at Dai ar draws Gogledd-ddwyrain Cymru Ac yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo Polisi Dyraniadau Cyffredin i'w weithredu'n lleol .

**8 DATBLYGIADAU POLISI TRETHI BUSNES YNG NGHYMRU** (Tudalennau 393 - 404)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) ynghylch newidiadau deddfwriaethol i Drethi Busnes i hyrwyddo datblygiadau newydd a dod eiddo gwag hir dymor yn ôl i ddefnydd. Mae'r adroddiad hefyd yn gofyn i'r Cabinet fabwysiadu'r ddau gynllun newydd.

**9 GOSTYNGIAD DEWISOL AR DRETHI** (Tudalennau 405 - 424)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) sy'n adolygu lefelau Gostyngiad Dewisol ar Drethi a ddyfarnwyd i elusennau a sefydliadau nid-er-elw. Mae'r adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo diwygiadau arfaethedig i'r Meini Prawf ar gyfer Gostyngiad Dewisol ar Drethi.

**10 CYLLIDEB 2014/15** (Tudalennau 425 - 438)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi diweddariad ar y broses o bennu'r gyllideb ac yn manylu ar gynigion i'w cymeradwyo gan y Cyngor Sir er mwyn pennu cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2014/15.

**11 ADRODDIAD CYLLID**

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi i ddilyn) yn nodi manylion y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb a gytunwyd.

**12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 439 - 442)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet amgaeedig a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2- EITEMAU CYFRINACHOL**

EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**13 FFRAMWAITH CONTRACTWR YSGOLION AC ADEILADAU CYHOEDDUS GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 443 - 556)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn argymell penodi'r contractwyr a enwyd.

**14 DYFODOL CLWYD LEISURE LIMITED**

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Huw Jones, Aelod Arweiniol Hamdden, Ieuenctid, Twristiaeth a Datblygu Gwledig (copi i ddilyn) ar y dewisiadau ar gyfer cyfleusterau a weithredir ar hyn o bryd gan Clwyd Leisure Limited.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Hugh Irving |
| Julian Thompson-Hill | Huw Jones |
| Eryl Williams | Barbara Smith |
| Bobby Feeley | David Smith |

**COPIAU I’R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a’r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned